**AR WERTH**

**DRWY GYTUNIAD PREIFAT**

**CYFLE DATBLYGU AR GYFER DEFNYDD CYFLOGAETH**

**(YN AMODOL AR GAEL CANIATÂD CYNLLUNIO)**

**LLAIN 8 PARC HENDRE, CAPEL HENDRE, RHYDAMAN, SA18 3SJ**




- Amcan Bris  - £250,000
- Cyfle cyffrous I ddatblygu  ar ystad ddiwydiannol ffyniannus
- Lleoliad gwychgyda nifer o fusnesau sefydledig

Cyngor **Sir Gâr**

**Carmarthenshire**
County Council

## LLLEOLIAD

Mae'r Eiddo wedi'i leoli yn Ystad Ddiwydiannol Parc Hendre tua thair milltir i'r de-orllewin o Rydaman, Capel Hendre, gyda chysylltiad â'r A483. Mae'r A483 yn cysylltu â chyffordd 49 Traffordd yr M4 i'r de.

## DISGRIFIAD O‘R SAFLE

Mae'r llain yn gyffredinol yn wastad ac yn ymestyn i arwynebedd o 1.66 hectar (4.1 erw) fel y nodwyd ar y cynllun.
Ceir mynediad i'r llain ar hyd ffordd gangen a adeiladwyd o brif ffordd yr ystad a bydd angen paratoi cyn datblygu'r llain o ran gwaith clirio, gwastatáu a chywasgu

## CYNLLUNIO

Y defnydd a ganiateir ar y safle yw B1, B2 a B8. Bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r safleoedd gael eu defnyddio ar gyfer gweithgynhyrchu neu ddefnyddiau sy'n ychwanegu gwerth. Gofynnir i bob parti â diddordeb ddarparu manylion llawn i gadarnhau eu bod yn bodloni'r meini prawf hyn.
Bydd angen i unrhyw ddatblygiad hefyd gydymffurfio â Pholisi Cynaliadwy Llywodraeth Cymru o ran BREEAM.

## GWASANAETHAU

Credir bod pob prif wasanaeth ar gael i'r llain ond dylai datblygwyr wneud ymholiadau eu hunain gyda'r cyfleustodau statudol ynghylch argaeledd a digonolrwydd eu cyflenwad ar gyfer y datblygiad arfaethedig.
Yn ogystal, gwerthir y llain yn amodol ar unrhyw wasanaethau presennol sydd wedi'u lleoli o fewn y safle ac ar ben hynny bydd yn ofynnol i'r prynwr dalu cyfran resymol tuag at gostau cynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu unrhyw wasanaethau a rennir a ddefnyddir yn y dyfodol.

## DEILIADAETH

Byddai'r llain yn cael ei gwerthu drwy Brydles Adeiladu 125 mlynedd gydag un taliad premiwm yn daladwy ar roi'r les, bydd opsiwn yn cael ei gynnwys yn y brydles i'r deiliad gaffael rhydd-ddaliad y llain ar sail hedyn pupur ar ôl cwblhau'r datblygiad yn ymarferol.
Bydd y Brydles Adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol i'r safle gael ei ddatblygu yn unol â'r telerau cyffredinol canlynol :



1. Mae'r datblygiad i'w gwblhau o fewn amserlen y cytunwyd arno ar ôl cwblhau'r Brydles Adeiladu.
2. Bydd y prynwr yn cyflwyno a chael caniatâd cynllunio o fewn cyfnod penodedig a byddai'r datblygiad yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a osodir ynddo.
3. Bydd y Cyngor yn cadw'r hawl i gysylltu â'r carthffosydd dŵr budr ac arwyneb os oes unrhyw un sy'n bresennol o fewn y safle o dir cyfagos a gedwir ganddo.
4. O dan delerau'r brydles adeiladu a'r broses drosglwyddo, bydd gofyn i'r lesddeiliad/prynwr dalu cyfran deg tuag at gost cynnal a chadw ffordd yr ystad, y gyfran sydd i'w thalu i fod yn pro rata i ardal gyffredinol Parc Hendre.
5. O dan delerau'r brydles adeiladu a'r broses drosglwyddo, bydd gofyn i'r lesddeiliad/prynwr gadw a chynnal yr ardal wedi'i thirlunio o amgylch y safle. Mae hyn yn cynnwys y bwndel rhwng y llwyfandir datblygu ac ymyl y briffordd.
6. Os yw'r datblygiad yn cynnwys defnyddio ardaloedd allanol ar gyfer gweithgynhyrchu neu storio, rhaid i'r prynwr ddarparu sgrinio digonol.

Nid yw'r Cyngor wedi'i rwymo i dderbyn unrhyw gynnig ac mae'n cadw'r hawl i werthu'r safle drwy broses dendro gystadleuol os bydd dau neu fwy o bartïon â diddordeb.


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â :

Catherine Jones ffôn : 01554 748809
cjones@sirgar.gov.uk

Peter Edwards ffôn : 01267 246254 / 07789 371171
pedwards@sirgar.gov.uk

Bydd angen i chi weithredu'n ddwyieithog yn unol a pholisiau'r cyngoryn cynnwys arwyddion dwyeithog yn yr eiddo ,yn fewnol ac allanol. Mae gwasanaeth cyngora chymorth ogystal a chyfiethu a darllen / cywiro proflenni ar gael. Am wybodaeth ewch i www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes ,cliciwch ar iaith gymraeg a busnes.

Bwriedir i'r manylion hyn roi disgrifiad teg o'r eiddo, ond canllaw ydynt yn unig. Ni ellir gwarantu eu cywirdeb a dylech chi fodloni eich hun eu bod yn gywir, drwy eu harchwilio neu fel arall. Mae rheidrwydd ar Gyngor Sir Caerfyrddin i ystyried pob cynnig a ddaw i law am yr eiddo hwn hyd nes y cyfnewidir contractau. Nid oes rheidrwydd arno i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig.


Parc Hendre
Parc Hendre